Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

**Ysgol Red Rose**
**Allensbank Crescent**
**Y Mynydd Bychan**
**Caerdydd**
**CF14 3PR**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/06/2016**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol yn ardal y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd yw Ysgol Red Rose. Mae'n darparu lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion rhwng wyth ac 19 oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddwys, anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Agorwyd yr ysgol yn Rhagfyr 2009.

Mae 13 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Saesneg yw mamiaith pob un o'r disgyblion. Nid oes unrhyw ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol. Awdurdod lleol Caerdydd sy'n ariannu pob un o'r lleoliadau ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn adeilad cymunedol. Mae'r ysgol yn defnyddio adeilad ychwanegol ar y safle fel stiwdio gelf. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers i'r ysgol agor.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae disgyblion yn ymateb yn dda i ethos meithringar yr ysgol. Maent yn magu hyder ac yn dysgu rheoli eu hymddygiad yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran gwella'u presenoldeb a'u hymgysylltiad â dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu gofalgar a chefnogol lle mae gan staff a disgyblion berthnasoedd gweithio da.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol a'u medrau cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gyfleusterau yn y gymuned leol i wella'r cwricwlwm a datblygu medrau cymdeithasol disgyblion, sy'n cynnwys ymweld â siopau lleol, pwll nofio a'r theatr.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer cynnal yr ysgol o ddydd i ddydd, ac mae'n cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol.

### Meysydd i'w datblygu

Megis dechrau datblygu y mae'r trefniadau ar gyfer nodi a chofnodi medrau ac ymddygiadau gwaelodlin disgyblion wrth iddynt ddechrau. O ganlyniad, ni all yr ysgol roi tystiolaeth o'r cynnydd a wna disgyblion mewn meysydd pwysig fel presenoldeb, ymddygiad ac ymgysylltu â dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 yn ennill cymwysterau priodol mewn cyrsiau achrededig sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion a'u galluoedd a nodwyd. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion sy'n fwy abl yn dilyn cyrsiau nad ydynt yn ddigon heriol. Nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am fyd gwaith ac elwa ar weithio ochr yn ochr â disgyblion eraill wedi'u datblygu'n ddigonol.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Gwella'r broses asesu gwaelodlin i ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu â dysgu

A2 Sicrhau bod disgyblion sy'n fwy abl yn ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr mewn lleoliadau gwaith, ysgolion prif ffrwd a cholegau, lle bo'n briodol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Defnyddio'r data sy'n cael ei gasglu ar bob disgybl yn fwy effeithlon a systematig i asesu eu cynnydd a llywio cynllunio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu defnydd yr ysgol o ddata i asesu cynnydd disgyblion unigol a llywio cynllunio. Mae'r ysgol wedi dechrau casglu data o asesiadau llythrennedd, ac mae wedi cyflwyno system olrhain ysgol gyfan newydd yn ddiweddar i fonitro cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol, er enghraifft i gynllunio cyfweliadau addas ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn llythrennedd.

**Argymhelliad 2: Cynnwys pob disgybl mewn gosod a monitro targedau penodol a mesuradwy sy'n berthnasol i'w hanghenion unigol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwella'i gweithdrefnau ar gyfer cynnwys disgyblion mewn gosod ac adolygu targedau. Caiff targedau eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch erbyn hyn, ac fe gânt eu harddangos yn amlwg mewn ystafelloedd dosbarth. Mae aelod dynodedig o staff bellach yn cyfarfod â phob disgybl bob wythnos i drafod eu perfformiad a'u targedau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwybod eu targedau erbyn hyn, ac maent yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i'w cyflawni.

**Argymhelliad 3: Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwella'i gweithdrefnau ar gyfer gwrando ar ddysgwyr. Mae staff yn gwneud defnydd priodol o gyfarfodydd ysgol gyfan wythnosol i annog disgyblion i godi materion a thrafod ffyrdd o wella'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion wedi dewis offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu newydd, gweithgareddau ar gyfer y ffair haf ac offer ar gyfer y mannau chwarae y tu allan.

**Argymhelliad 4: Gwneud cais am newid perthnasol i ddefnyddio'r adeilad ychwanegol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi gwneud cais i wneud y newid perthnasol i'r adeiladau, ac mae wedi cael y caniatâd angenrheidiol i wneud hynny.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl yn yr ysgol**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol, efallai yr hoffai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Red Rose |
| **Rhif yr ysgol** | 6816095 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 19/04/2016 |
| **Perchennog** | Huw Pockett |
| **Staff** | Pennaeth  5 athro 2 gynorthwyydd cymorth dysgu 1 gofalwr |
| **Nifer y disgyblion** | 13 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau dysgu cymedrol a difrifol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/01/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/03/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Tîm |